

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040

## Papur Esboniadol – Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Phorthladdoedd

Rhagfyr 2019

## Pam ydym ni wedi cyhoeddi'r papurau esboniadol hyn?

Yn ystod yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) Drafft, awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid cael mwy o fanylion yn dangos sut mae'r FfDC wedi cael ei baratoi. I gynorthwyo rhanddeiliaid rydym wedi llunio casgliad o bapurau esboniadol er mwyn dangos y dystiolaeth sy'n ategu'r FfDC drafft. Mae'r papurau hyn yn cynnwys:

- Y Strategaeth Ofodol
- Asesiadau'r FfDC
- Hynt y FfDC yn y dyfodol
- Y Rhanbarthau
- Ardaloedd Gwledig
- Angen o ran tai
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Phorthladdoedd
- Casgliad o dystiolaeth

## Beth yw'r ddogfen hon?

Cafodd y papur esboniadol hwn ei baratoi i gynorthwyo darllenwyr y FfDC drafft i ddeall y berthynas rhwng y FfDC Drafft a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r dull a roddir ar waith i ymdrin â pholisïau porthladdoedd. Mae'n tynnu sylw at feysydd polisi allweddol sy'n gorgyffwrdd o fewn y cynlluniau a'r dystiolaeth sydd wedi cyfarwyddo polisïau porthladdoedd o fewn y cynllun.



Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg. / This document is also available in English.
OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG39565 ISBN Digidol: 978 1 83933 667 6

1. Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) yn nodi cyfleoedd ac yn llywio datblygu cynaliadwy ar y tir ac ar y môr. Maent yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau integredig a chydweithio ar draws rhyngwynebau a ffiniau morol a thirol. Cânt eu defnyddio gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ym maes datblygu cynllunio a chynllunio strategol morol a thirol. Mae'r ffeithlun yn Atodiad A yn esbonio'r berthynas rhwng y ddwy system gynllunio.

2. Mae'r amserlenni ar gyfer llunio CMCC a'r FfDC wedi gorgyffwrdd ond nid ydynt yn cyd-fynd â'i gilydd, sy'n golygu mai dim ond fersiynau drafft o CMCC sydd wedi bod ar gael yn ystod y broses o ddatblygu'r FfDC. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn y ddau dîm wedi cysylltu â'i gilydd yn rheolaidd yn ystod y broses o lunio'r ddau gynllun er mwyn sicrhau eu bod yn gydgysylltiedig. Bydd y timau yn parhau i gysylltu â'i gilydd ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu ac yn ystod y broses o'u rhoi ar waith a'u hadolygu ac maent yn manteisio ar gyfleoedd i gydgysylltu dulliau o asesu, casglu tystiolaeth a monitro ar gyfer fersiynau nesaf y cynlluniau hyn.

3. Bydd y gwaith cynllunio a rheoli cydgysylltiedig ar draws y parth arfordirol yn ei gwneud yn bosibl i ddatblygiadau ddeall ac ymateb i'r heriau penodol sy'n deillio o ryngweithio dynamig pwysau naturiol a datblygu mewn ardaloedd arfordirol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod ardaloedd arfordirol yn cael eu cynllunio mewn ffordd amgylcheddol, ddiwylliannol ac economaidd-gynaliadwy.

4. Bydd y system gynllunio dirol yn llywio'r ffordd y bydd y cymunedau arfordirol hyn yn datblygu a bydd CMCC yn sicrhau bod datblygiadau morol yn deall ac yn ystyried anghenion cymunedau arfordirol. Bydd y dull gweithredu hwn yn helpu i gynnig buddiannau lleol o'r ardal forol i'n cymunedau arfordirol.

5. Gall gweithgareddau ar y tir ac ar y môr gael effaith uniongyrchol dros ardaloedd eang a all gwmpasu awdurdodaeth sawl awdurdod cynllunio (rhai tirol a morol a thu hwnt i Gymru). Felly, mae integreiddio gwaith cynllunio ar draws y ffiniau hyn ac ar raddfeydd lleol, cenedlaethol a rhanbarthol yn bwysig, a hefyd integreiddio â sefydliadau a phrosesau eraill sy'n gysylltiedig â'r gwaith o reoleiddio a rheoli adnoddau a lleoedd naturiol. Wrth ddatblygu CMCC a'r FfDC y bwriad oedd sicrhau bod dull gweithredu clir o gynllunio a bod cysondeb ar draws ardaloedd tirol a morol.

6. Mae pwysau ar y tir ac ar y môr sy'n deillio o ddatblygiadau a'r defnydd o adnoddau naturiol y mae'n rhaid cynllunio ar eu cyfer a'u rheoli. Gall pwysau fod yn gadarnhaol neu'n niweidiol a gallant ymwneud â buddiannau amgylcheddol neu ystyriaethau economaidd-gymdeithasol. Nodir prif ffynonellau'r pwysau hyn yn y tabl isod. Gall y rhain orgyffwrdd a bod yn synergaidd neu'n gronnus a bydd angen eu cynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau y caiff effeithiau niweidiol eu hosgoi ac y manteisir i'r eithaf ar unrhyw fuddiannau sy'n codi o'r cyfleoedd.


| Gweithgarwch allweddol ar y tir | Pwysau ar y môr |
|---|---|
| Datblygiadau mawr ar yr arfordir | Gwaredu gwastraff |
| Porthladdoedd, harbyrau a llongau | Pysgota môr |
| Cyfleusterau twristiaeth a hamdden | Dyframaethu |
| Ynni adnewyddadwy | Hwylio hamdden |
| Amddiffynfeydd arfordirol | Carthu sianeli mordwyadwy |
| Gwaith ceblo o dan y môr | Chwaraeon dŵr ac ymdrochi |
| | Cloddio am agregau o dan y môr |
| | Cynhyrchu ynni'r llanw ac ynni'r tonnau |

## Meysydd polisi allweddol lle mae gorgyffwrdd rhwng cynlluniau

### Ynni

7. Cydnabyddir bod cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn rhan allweddol o'r ymrwymiad i ddatgarboneiddio yng Nghymru. Mae'r FfDC a'r Cynllun Morol yn ymdrin ag ynni ac yn adlewyrchu'r hierarchaeth ynni fel y'i nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru.

### Ffigur 9: Yr Hierarchaeth Ynni ym maes Cynllunio




8. Mae'r ddau gynllun yn cydnabod bod nifer o gyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy drwy amrywiaeth o dechnolegau, ar y tir ac ar y môr, y dylid manteisio arnynt i'r eithaf er mwyn helpu i gyflawni'r targedau. Nid yw'r cynlluniau yn gwahardd unrhyw dechnolegau penodol ac nid ydynt yn pennu targedau ar gyfer technoleg benodol. Mae'r FfDC yn canolbwyntio ar dechnolegau ynni'r gwynt ac ynni'r haul ar raddfa genedlaethol.

9. Bydd y FfDC a CMCC yn darparu fframwaith i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau yn gydgysylltiedig er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar y môr ac ar y tir.

10. Mae'r FfDC yn nodi ardaloedd gofodol ar gyfer cynhyrchu ynni'r haul ac ynni'r gwynt ar raddfa fawr ynghyd â pholisïau sy'n gefnogol i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr. Yna, bydd yn ofynnol i gynlluniau haen is bennu'r ardaloedd gofodol ar gyfer ynni adnewyddadwy.

11. Mae CMCC yn amlinellu polisïau cefnogi a diogelu ar gyfer ynni, gan gynnwys carbon isel (gwynt, tonnau a llanw) ac olew a nwy. Mae hefyd yn darparu ar gyfer datblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol lle y bo'n briodol er mwyn helpu i lywio rhyngweithio rhwng sectorau a gwneud y defnydd gorau o ofod morol. Rhoddir ystyriaeth gynnar i'r angen am Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer y sectorau ynni adnewyddadwy morol, yn enwedig technolegau ffrwd lanw ac ynni'r tonnau. Mae Ardaloedd Adnoddau Strategol yn adnodd i wella'r ffordd y rheolir gweithgareddau, gofod ac adnoddau morol, gan helpu i gefnogi'r broses o reoli rhyngweithio rhwng sectorau a rhoi ffocws ar gyfer gwaith cynllunio strategol pellach. Bwriedir cyflwyno'r Ardaloedd Adnoddau Strategol yn ddiweddarach drwy Hysbysiadau Cynllunio Morol. Bydd y gwaith ar yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn bwydo i mewn i'r adolygiad o'r FfDC a'r broses o ddatblygu gwaith cynllunio morol i Gymru ymhellach.

12. Cydnabyddir bod pob gweithgarwch cynhyrchu ynni adnewyddadwy morol yn cynnwys elfen sy'n gysylltiedig â'r tir, sef mannau lle mae ceblau yn cyrraedd y tir a seilwaith cysylltiedig fel arfer. At hynny, mae gan ddatblygiadau ar y môr y potensial i newid y morwedd a chymeriad ardal, gan gynnwys cymunedau arfordirol. Mae gan ddatblygiadau ynni adnewyddadwy morol ar raddfa fawr y potensial i gynnig buddiannau sylweddol i gymunedau lleol yn ystod y broses adeiladu a gweithredu a chydnabyddir bod hyn yn gyfle pwysig i gyfrannu at lesiant cymunedau arfordirol.

13. Mae rhyng-gysylltwyr yn chwarae rôl bwysig o ran cydbwyso'r cyflenwad a'r galw am ynni rhwng gwledydd ac, unwaith eto, mae'r ddwy system gynllunio yn chwarae rôl bwysig o ran ei gwneud yn bosibl i geblau rhyng-gysylltwyr gael eu defnyddio ymhellach, gan gynnwys yn y mannau lle maent yn cyrraedd y tir.

## Porthladdoedd

14. Nod y polisïau yn CMCC a'r FfDC yw ceisio cefnogi gwaith datblygu cynaliadwy yn y sector porthladdoedd. O dan y polisi ynglŷn â phorthladdoedd caiff gwaith datblygu ei arwain gan y farchnad ac nid yw'r cynlluniau yn ffafrio datblygu rhai porthladdoedd penodol yn hytrach nag eraill. Fodd bynnag, mae'r FfDC yn nodi Caergybi a Dyfrffordd y Ddau Gleddau, gan gydnabod eu pwysigrwydd cenedlaethol fel pyrth i Gymru a'u potensial ar gyfer twf a chefnogi economïau cenedlaethol a rhanbarthol.

15. Aberdaugleddau yw'r porthladd mwyaf yng Nghymru https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/summary-statistics-for-welsh-economic-regions-mid-and-south-west-wales.pdf yn ôl nwyddau a gludir drwyddo, yn bennaf olew a nwy. Ymdriniodd â 32.0 Mt o draffig yn 2017, sef 6.6 y cant o gyfanswm y DU. Mae traffig cludo nwyddau yn Aberdaugleddau yn cyfrif am 62.0 y cant o holl draffig porthladdoedd Cymru.

16. Caergybi yw'r trydydd porthladd pwysicaf yng Nghymru yn ôl nwyddau a gludir drwyddo a'r prif borthladd https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/summary-statistics-for-welsh-economic-regions-wales-north-wales.pdf ar gyfer cludo nwyddau a theithwyr dros y môr o Weriniaeth Iwerddon. Yn 2017, roedd 74.9% o deithwyr a deithiodd dros y môr rhwng Gweriniaeth Iwerddon a Chymru wedi defnyddio'r llwybr rhwng Caergybi a Dulyn.

17. Mae polisïau'r FfDC drafft ar gyfer Caergybi a Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i waith datblygu strategol yn yr ardaloedd hyn, fel rhan o'r ardaloedd menter. Mae Busnes Cymru yn disgrifio'r safleoedd hyn fel a ganlyn:

- Mae Aberdaugleddau yn un o'r porthladdoedd dŵr dwfn gorau yn y byd, ac mae hefyd yn gyswllt morol strategol bwysig rhwng y DU a gweddill y byd. Ceir cadwyn gyflenwi forol ragorol sy'n cynnwys cychod tynnu, diogelwch ar y glannau, llywio, asiantau llongau a chwmnïau cludo nwyddau. Mae gan Awdurdod y Porthladd amrywiaeth o swyddfeydd a gweithdai sydd ar gael i'w rhentu yn ogystal â safleoedd rhagorol ar y glannau, gyda glanfeydd, dociau sych a chyfleusterau eraill sy'n addas ar gyfer unrhyw un sydd am adeiladu dyfeisiau morol.[1]
- Mae gan borthladd Caergybi gyfleusterau porthladd dŵr dwfn, adeiladau sydd yno'n barod a lleiniau datblygu ar safle 98 hectar (242 erw). Mae'r harbwr mewnol, Ynys Halen a'r harbwr allanol yn cynnig cyfleoedd busnes morol, hamdden, trafnidiaeth, ynni, mordeithiau a chyfleoedd busnes eraill yn y prif borth i Iwerddon. Dyma'r prif borth i Iwerddon ar gyfer llongau nwyddau a theithwyr, ac fe'i defnyddir gan y farchnad llongau pleser. Mae gan y porthladd gysylltiadau ffordd a rheilffordd da.[2]

[1] https://businesswales.gov.wales/enterprisezones/cy/ardaloedd-menter-yng-nghymru/dyfrffordd-y-ddau-gleddau/yr-ardaloedd-a-safleoedd-yn-dyfrffordd-y-ddau-gleddau
[2] https://businesswales.gov.wales/enterprisezones/cy/ardaloedd-menter-yng-nghymru/ynys-mon/yr-ardaloedd-safleoedd-yn-ynys-mon

18. Mae'r cyfle i gael mwy o longau mordeithio yng Nghaergybi yn adlewyrchu blaenoriaeth allweddol i Croeso Cymru. https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-05/wales-marine-evidence-report-wmer.pdf Y nod yw cynyddu faint o longau mordeithio sy'n ymweld â phorthladdoedd Cymru a gwerth y mordeithiau hynny. Mae Strategaeth Datblygu Mordeithiau i Gymru wrthi'n cael ei datblygu a bydd hon yn cynnwys argymhellion ar gyfer unrhyw ddatblygiadau docio llongau mordeithio yng Nghymru.


19. Mae CMCC yn cydnabod y cyfle ar gyfer twf ym maes llongau mordeithio. Mae'r ddwy system gynllunio yn chwarae rolau pwysig i gefnogi'r sector. Y FfDC a'r cynlluniau tir cysylltiedig yw'r brif ffordd o alluogi gwaith datblygu pellach mewn porthladdoedd ac mae CMCC yn cefnogi'r dull gweithredu hwn drwy helpu i sicrhau y cynllunnir ar gyfer gweithgareddau ac anghenion porthladdoedd, gan gynnwys mynediad i longau i borthladdoedd drwy sianeli wedi'u carthu lle y bo angen, a bod y gwaith hwnnw'n parhau.



## Tystiolaeth a monitro

20. Cafodd y cynlluniau hyn eu llunio ar sail tystiolaeth a gwaith monitro cadarn. Mae monitro a gwerthuso yn gam hollbwysig sy'n sicrhau bod y cynlluniau a'u polisïau yn cyfrannu'n effeithiol at gyflawni eu hamcanion ac yn cefnogi'r broses o gyflawni nodau llesiant Cymru yn fwy cyffredinol. Bydd canlyniadau gwaith monitro o'r fath yn bwydo i mewn i'r adolygiadau nesaf o'r cynlluniau. Bydd y gwaith monitro yn helpu'r rhai a luniodd y cynlluniau i ddiwygio a chryfhau polisïau er mwyn sicrhau eu bod yn cael y buddiannau mwyaf posibl ac yn cynnwys polisïau newydd lle bo angen hynny.

# Cynllunio Morol a daearol yng Nghymru




**Cymru gynaliadwy yw nod systemau Cynllunio morol a daearol yng Nghymru.**

Mae cyd-gynllunio a rheoli'r parth arfordirol yn caniatáu datblygu fydd yn deall yr heriau penodol sy'n deillio o'r berthynas ddeinamig rhwng pwysau naturiol a phwysau datblygu o fewn ardaloedd arfordirol gan ymateb iddynt.

Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr ardaloedd arfordirol yn cael eu cynllunio mewn ffordd gynaliadwy o safbwynt cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd; gan greu cymunedau arfordirol sy'n ecolegol ac yn ffisegol gadarn ac sy'n gallu addasu yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Morol Cenedlaethol yn nodi cyfleoedd ac yn llywio datblygiadau ar y tir a'r môr, gan gefnogi penderfyniadau integredig a chydweithio ar draws ffiniau ar y môr a'r tir.

**Gallai pwysau ar y tir gynnwys:**

- Datblygiadau mawr ar yr arfordir
- Porthladdoedd, harbyrau a chyfleusterau hamdden
- Twristiaeth, hamdden a chyfleusterau adloniant
- Ynni adnewyddadwy
- Amddiffynfeydd arfordirol
- Ceblau o dan y môr.

**Gallai'r pwysau ar y môr gynnwys:**

- Gwaredu gwastraff
- Pysgota Môr
- Dyframaethu
- Hwylio hamdden
- Carthu sianeli mordwyo
- Chwaraeon dŵr ac ymdrochi
- Cloddio am agregau morol
- Cynhyrchu pŵer y llanw a'r tonnau.

Mae'n bosibl y bydd y pwysau yn gorgyffwrdd a bydd angen cynllunio gofalus i osgoi effeithiau negyddol ac i fanteisio ar bob cyfle.

Bydd hyn yn cynnwys yr effaith ar adnoddau dŵr, treftadaeth, tirwedd a morweddau ac o lygredd (dŵr, sŵn, aer, ysbwriel).

Mae angen ystyried effaith gronnol pob defnydd o'r amgylchedd arfordirol, hyrwyddo gweithgareddau cydweddol ar y cyd, a helpu i osgoi neu liniaru gwrthdaro rhwng defnyddwyr lle medrir.

Mae hyn yn cynnwys defnydd megis pysgodfeydd, hamddena ac amddiffyn.

OGL WG36157 © Hawlfraint y Goron 2019